**Canllawiau – ffurflen Ymgeisydd yn Cyrraedd yn Hwyr Iawn ar-lein ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24**

1. **Gallai** ymgeisydd sy'n cyrraedd ar ôl dechrau'r arholiad gael caniatâd i fynd i mewn i'r ystafell arholiadau a sefyll yr arholiad. **Gwneir hyn yn ôl disgresiwn llwyr y ganolfan.**

   **Rhaid** i'r ganolfan rybuddio'r ymgeisydd bod posibilrwydd na fydd y corff dyfarnu'n derbyn ei sgript pan fydd yn cyrraedd yn hwyr iawn i'r arholiad.

2. **Rhaid** caniatáu'r amser llawn ar gyfer yr arholiad i ymgeisydd sy'n cyrraedd yn hwyr ac sy'n cael sefyll gan y ganolfan.

3. Ar gyfer arholiad sy'n fwy nag un awr, nid yw'n ofynnol llenwi'r ffurflen hon ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n cyrraedd o fewn un awr ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu.

4. Bydd ymgeisydd yn cael ei ystyried yn hwyr iawn os yw'n cyrraedd dros un awr ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer arholiad o fwy nag un awr.

5. Ar gyfer arholiadau llai nag un awr, bydd ymgeisydd yn cael ei ystyried yn hwyr iawn os yw'n cyrraedd ar ôl amser gorffen swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.

6. **Rhaid** i ganolfannau gyflwyno'r ffurflen hon ar-lein, gan ddefnyddio'r Porth Gweinyddu Canolfannau, i'r corff dyfarnu priodol **o fewn saith diwrnod gwaith i ddyddiad yr arholiad dan sylw.** Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

7. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r meysydd canlynol: Manylion y ganolfan, Manylion yr ymgeisydd, Corff Dyfarnu, Cymhwyster, Cyfres Arholiadau, Cod y pwnc neu'r uned/cydran.

8. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r blwch sydd â'r pennawd 'Amser y daeth yr ymgeisydd o dan oruchwyliaeth staff y ganolfan'.

9. Yn y blwch 'Y rheswm dros fod yn hwyr', dylai canolfannau nodi union natur yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ymgeisydd yn cyrraedd yn hwyr. Dylai canolfannau roi manylion unrhyw drefniadau arbennig a wnaethpwyd i'r ymgeisydd gyrraedd y ganolfan.

10. Yn y blychau priodol, dylai canolfannau nodi'r union amser y gwnaeth y ganolfan ddechrau a gorffen yr arholiad, a'r amser y bu i'r ymgeisydd dan sylw ddechrau a gorffen ei arholiad.

11. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r blwch 'Pa mor sicr allwch chi ddweud nad yw'r ymgeisydd wedi gweld nac wedi cael gwybod am gynnwys y papur cyn sefyll yr arholiad?'

12. Dylai canolfannau atodi i'r ffurflen unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod yr ymgeisydd yn hwyr am resymau y tu hwnt i'w reolaeth a/neu sydd wedi rhoi'r sicrwydd iddynt a nodir ym mhwynt 11 uchod. Gall y dystiolaeth hon gynnwys datganiadau (e.e. gan yr ymgeisydd, rhiant, trydydd parti), delweddau, (e.e. aflonyddwch traffig) neu ddogfennau eraill.

13. **Rhaid** i bennaeth y ganolfan fod yn ymwybodol o'r angen i gyflwyno'r ffurflen ac awdurdodi ei chyflwyniad.

14. **Rhaid** anfon y sgriptiau at y corff dyfarnu/arholwr yn y dull arferol.

©CGC 2023 – Yn weithredol o 1 Medi 2023